# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni

Dydd Llun 8 Tachwedd 2021, 11.00-12.00

*Noddwyd gan Mark Isherwood AS*

**Yn bresennol**

**Cadeirydd: Mark Isherwood AS**

Adam Scorer, NEA
Andrew Bettridge (ar ran John Griffiths AS), y Senedd
Ben Saltmarsh, NEA Cymru
Bethan Edwards, Marie Curie
Brian Hart, NEA
Ceri Cryer, Age Cymru
Claire Durkin, Ymddiriedolwr NEA
Claire Pearce-Crawford, Cartrefi Melin
Crispin Jones, Arbed am Byth
Dale Thomas (ar ran Lee Waters AS), y Senedd
David Wallace, Cartrefi Melin
Elaine Robinson, Prifysgol Caerdydd
Eleri Williams, Cenedlaethau'r Dyfodol
Faye Patton, Gofal a Thrwsio
George Jones, Pobl Hŷn Cymru
Haf Elgar, Cyfeillion y Ddaear Cymru
Hugh Kocan, Sefydliad Bevan
Jack Wilkinson-Dix, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni
Jane Hutt AS, Llywodraeth Cymru
Joanna Seymour, Cymru Gynnes
Jonathan Cosson, Cymru Gynnes
Kirsty Rees (ar ran Mike Hedges AS), y Senedd
Lee Phillips, y Gwasanaeth Arian a Phensiynau
Mark Alexander, Llywodraeth Cymru
Mark Isherwood AS, y Senedd
Matt Copeland, NEA
Michael Anderson, Ofgem
Mike Potter, NEA
Neville Rookes, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Nigel Winnan, Wales and West Utilities
Richard Hauxwell-Baldwin, Sefydliad Elusennol MCS
Sam Worrall, Sipsiwn a Theithwyr Cymru
Simon Lannon, Prifysgol Caerdydd
Simone Lowthe-Thomas, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy
Sioned Williams AS, Senedd
Vikki Howells AS, Senedd
William Jones, Cyngor ar Bopeth Ceredigion

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

- Rhys ab Owen AS
- Peredur Owen Griffiths AS
- Jane Dodds AS
- Delyth Jewell AS
- Sam Hughes, Cyngor ar Bopeth
- Steffan Evans, Sefydliad Bevan

## 1. Croeso a chyflwyniadau

Croesawodd Mark Isherwood AS aelodau’r Grŵp i’r cyfarfod, ynghyd â Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol. Roedd cofnodion y cyfarfod diwethaf a'r adroddiad etifeddiaeth, a oedd yn ymwneud â chyfarfodydd yn y Senedd ddiwethaf, eisoes wedi cael eu dosbarthu. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**2. Ethol Cadeirydd a'r Ysgrifenyddiaeth**

Cafodd Mark Isherwood AS ei enwebu i fod yn Gadeirydd gan Sioned Williams MS ac fe'i heiliwyd gan Simone Lowthe-Thomas o Asiantaeth Ynni Severn Wye. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.  Etholwyd Mark Isherwood AS i barhau'n Gadeirydd y Grŵp.

Cafodd Ben Saltmarsh, Pennaeth NEA Cymru ei enwebu i fod yn Ysgrifennydd gan William Jones o Gyngor ar Bopeth Ceredigion ac fe'i heiliwyd gan Claire Pearce-Crawford o Cartrefi Melin. Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill.  Etholwyd Ben Saltmarsh yn Ysgrifennydd y Grŵp.

**3. Diweddariad gan yr Ysgrifennydd**

Cafwyd diweddariad cyd-destunol byr ar dlodi tanwydd gan Ben Saltmarsh ar ran NEA Cymru.

Yn 2018, cyn y pandemig, amcangyfrifwyd bod 12 y cant o aelwydydd yng Nghymru mewn tlodi tanwydd, sy'n cyfateb i 155,000 o aelwydydd. Mae tlodi tanwydd hefyd yn amrywio yn ôl rhanbarth. Amcangyfrifir bod y canrannau tlodi tanwydd ar eu huchaf yng nghanolbarh a gorllewin Cymru, yn enwedig Gwynedd sydd â 23 y cant a Cheredigion sydd â 21 y cant, sef ffigurau sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 12 y cant. Mae hefyd yn amrywio yn ôl deiliadaeth: 9 y cant mewn tai cymdeithasol, gan godi i 11 y cant mewn cartrefi perchen-feddianwyr ac 20 y cant yn y sector rhentu preifat. Nodwyd hefyd fod 18 y cant o holl aelwydydd Cymru yn defnyddio mesuryddion rhagdalu, sy'n ffigur anghymesur o uchel o'i gymharu â Lloegr, a chyn COVID, gwelodd Cymru gynnydd o 45 y cant yn 2019-20 ym marwolaethau ychwanegol y gaeaf - 2,000 yn fwy na'r 1,380 a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol - gyda 30 y cant ohonynt i'w priodoli i gartrefi oer. Mae rhywfaint o stoc dai Cymru ymysgy yr hynaf a'r lleiaf effeithlon yn thermol o'i chymharu â gwledydd eraill y DU a gwledydd Ewrop.

Mae'r pandemig wedi bwrw'r bobl dlotaf galetaf, ac mae wedi gwaethygu anghydraddoldebau. Mae biliau cyfleustodau eisoes wedi troi'n bryder allweddol, yn enwedig am fod pobl wedi bod gartref, ac felly'n defnyddio mwy ac yn mynd i ddyled mwy, ac yn ennill llai trwy'r cyfan. Rydym hefyd wedi gweld diwedd ar y codiad o £20 i'r Credyd Cynhwysol a'r cynllun ffyrlo'n dod i ben.

Ers hynny, mae'r argyfwng prisiau ynni'n golygu bod prisiau cyfanwerthol nwy wedi codi i'r entrychion, ac mae'r hwch wedi mynd drwy'r siop i tua 17 o gyflenwyr ers mis Medi, gyda dros 2 filiwn o aelwydydd ledled Prydain Fawr yn gorfod mynd trwy'r broses 'Cyflenwr pan fetha popeth arall'. Ar 1 Hydref, cododd y cap prisiau ar dariffau diofyn £139 y flwyddyn ar gyfartaledd i'r rhai sy'n talu trwy Debyd Uniongyrchol a £153 y flwyddyn ar gyfartaledd i'r rhai sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu. Mae NEA wedi amcangyfrif yn fras fod tua 22,500 o aelwydydd yng Nghymru yn debygol o fod wedi mynd i dlodi tanwydd o ganlyniad i godi'r cap prisiau yn unig, ond mae'n ddigon posibl mai tanamcangyfrif yw hynny, yn anad dim am nad yw'n ystyried y gostyngiad yn incwm cartrefi. Y prif beth i'w nodi yma yw nad yw'r ffaith i'r cap hwnnw gael ei godi ar 1 Hydref yn cyfrif am yr ymchwydd diweddar mewn prisiau ynni cyfanwerthol - mae hynny eto i ddod. Felly, hefyd, y gost y mae cyflenwyr yn ei hysgwyddo wrth i gynifer o gyflenwyr eraill fethu, ac mae'r cap ar brisiau'n debygol iawn o godi'n

sylweddol eto ym mis Ebrill. Mae dadansoddwyr yn rhagweld y gallai'r cap ar brisiau godi £400- £600 ymhellach, ac mae NEA wedi amcangyfrif y gallem weld y niferoedd sydd mewn tlodi tanwydd yn codi 50 y cant neu'n uwch o'u cymharu ag amcangyfrifon 2018.

Mae NEA wedi bod yn llafurio yn y cefndir i alw am amddiffyniad cryfach a mwy o gymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer aelwydydd incwm isel y gaeaf hwn, a hynny drwy weithio gydag Ofgem i sicrhau nad yw cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn cael eu peryglu pan fydd eu cyflenwr yn methu, ac i ddarparu amddiffyniad dyfnach iddynt, gan gryfhau'r broses 'Cyflenwr pan fetha popeth arall', a chan sicrhau y gall cwsmeriaid sy'n defnyddio mesuryddion rhagdalu traddodiadol yn gallu cadw parhau i ychwanegu at hyn, ynghyd â sicrhau bod cwsmeriaid dyledus yn cael eu hamddiffyn rhag tactegau adfer dyled a allai fod yn ymosodol os gwelant eu cyflenwr yn mynd o dan. Hefyd, mae'n gweithio gyda Llywodraeth y DU i ddarparu mwy o gymorth ariannol uniongyrchol y tu hwnt i'r Gronfa Gymorth i Aelwydydd, a hynny drwy geisio cynyddu'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes neu ymestyn y Taliadau Tanwydd Gaeaf er mwyn cyrraedd llawer o aelwydydd incwm-isel, oedran gweithio mewn angen, ynghyd â helpu i glirio dyledion ynni. Yn anffodus, ni welwyd yr un o'r rheini yng nghyhoeddiad cyllideb y Canghellor yr wythnos o'r blaen, ond efallai y ceir cyfleoedd i ddychwelyd i'r mater hyn yn nes ymlaen.

Mae NEA hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i ehangu'r cymorth ariannol sydd ar gael i helpu pobl sy'n cael trafferth i dalu eu biliau ynni cynyddol, y tu hwnt i'r rhai a allai fod yn defnyddio mesuryddion rhagdalu, olew neu LPG, lle y gwelwyd rhai gwelliannau sylweddol yn ddiweddar o ran yr help sydd ar gael, yn ogystal â pharhau i fuddsoddi yn effeithlonrwydd ynni cartrefi. Nid mater o fod yn ddiymgeledd rhag prisiau nwy cyfanwerthol yn unig ydyw; mae hefyd yn ymwneud â'r cartrefi oer, anniddos, aneffeithlon yr ydym yn dal i fethu fforddio eu cynhesu'n iawn am bris rhesymol.

Cloiodd Ben drwy dynnu sylw at rai o'r pethau allweddol sydd ar y gweill:

- **Dydd Mawrth 30 Tachwedd 2021 - Cyhoeddi Monitor Tlodi Tanwydd y DU**

  Adroddiad ymchwiliol blynyddol NEA i dlodi tanwydd yn y DU. Eleni, bydd y Monitor yn canolbwyntio ar y cyfleoedd, yr heriau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i ddatgarboneiddio gwres ar gyfer cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd. Mae'n ychwanegu at gyfweliadau â rhai rhanddeiliaid allweddol a swyddogion y llywodraeth, yn ogystal â 122 o ymatebwyr ledled y DU.

- **Dydd Gwener 3 Rhagfyr - Diwrnod Ymwybyddiaeth Tlodi Tanwydd**

  Bydd cydweithwyr yn dosbarthu mwy o wybodaeth maes o law.

- **Dydd Iau 9 Rhagfyr - Fforwm Tlodi Tanwydd Cymru Gyfan**

  Yn ogystal ag amlygu'r gefnogaeth sydd ar gael, bydd y digwyddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddarf i gynrychiolwyr am ddatblygiadau polisi diweddar, a chynhelir trafodaeth agored gydag Ofgem a fydd yn ymdrin â rhai o'r materion allweddol y bydd cartrefi tlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn eu hwynebu y gaeaf hwn a'r tu hwnt. Caiff gwahoddiadau eu hanfon trwy e-bost yn fuan.

**4. Jane Hutt AS, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**

Dechreuodd y Gweinidog drwy ddiweddaru aelodau ar flaenoriaethau cyfredol Llywodraeth Cymru yn y maes hwn, cyn ateb cwestiynau.

Llongyfarchodd Jane Hutt AS i Mark Isherwood AS a Ben Saltmarsh ar iddynt gael eu hailethol i'w rolau, gan nodi ei gobaith y byddai'n gallu cymryd rhan yn rheolaidd.

Mae'r 'Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd 2021 i 2035, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth, yn ystyried lle mae Llywodraeth Cymru arni o ran cyflawni ac fe wnaed cynnydd da. Mae hyn yn cynnwys gweithredu i baratoi'r Cynllun Gwytnwch Tywydd Oer a sefydlu'r Panel Cynghori ar Dlodi Tanwydd.

Bydd y storm berffaith o incwm llai, chwyddiant ar gynnydd, toriadau i fudd-daliadau a chynnydd mewn prisiau ynni yn cael cryn effaith ar lawer o aelwydydd incwm isel ac agored i niwed. Mae'r Gweinidog yn ymgysylltu'n agos iawn â'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar lawer o'r materion hyn, yn enwedig o ran tai a mynd i'r afael â newid hinsawdd. Mae cynllun Cymru Sero Net, a gyhoeddwyd ar 28 Hydref, yn amlinellu'r uchelgais i sicrhau pontio teg i sero net yng Nghymru. Rhaid i bolisïau gael eu halinio i gydnabod yr heriau o sicrhau fforddiadwyedd gwresogi, trechu tlodi tanwydd a datgarboneiddio.

Cyhoeddir amcangyfrifon diwygiedig o dlodi tanwydd ar gyfer Cymru, ond nid cyn y gwanwyn nesaf. Mae'r heriau a amlinellwyd yn flaenorol - y patrwm o ddefnyddio ynni domestig, costau cynyddol, effeithiau COVID - yn effeithio'n sylweddol ar lefelau tlodi tanwydd ac yn dwysáu anghydraddoldebau, ac mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hynny mewn trafodaethau ac ymyriadau. Bydd angen defnyddio'r amcangyfrifon diwygiedig o dlodi tanwydd i osod y targedau interim a fydd eu hangen i feincnodi cynnydd yn erbyn cyflawni'r cynllun 'Trechu Tlodi Tanwydd'. Bydd y Gweinidog yn parhau i wneud sylwadau ynghylch safbwyntiau ar bolisïau perthnasol ac lle mae ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran codiadau mewn prisiau ynni domestig ac effaith dileu'r £20 ychwanegol i'r Credyd Cynhwysol, yn enwedig i bobl nad ydynt mewn gwaith ac sy'n cael eu cydnabod fel rhai na allant weithio, megis y 74,000 o bobl anabl neu ofalwyr, a'r rhai nad ydynt eto mewn gwaith a allai elwa ar y tapro newydd ei gyhoeddi.

Rhoes y Gweinidog sicrwydd i'r Grŵp y gwneir cyhoeddiad ynghylch y Gronfa Gymorth i Aelwydydd cyn gynted ag y bo modd. O ran yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, dim ond codiad cymedrol mewn cyllid refeniw a gostyngiad mewn cyllid cyfalaf a gafodd Cymru mewn gwirionedd dros y cyfnod adolygu gwariant, felly mae bylchau sylweddol mewn cyllid a diffyg chwistrelliad yr amcangyfrifir y bydd ei angen i gyflawni sero net. Nid yw canlyniad yr adolygiad o wariant yn mynd i'r afael â graddfa'r her o ran yr argyfwng costau byw sy'n agosáu na'r buddsoddiad ar gyfer adferiad gwyrddach a thecach sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, cymunedau a theuluoedd.

Cyhoeddir cyllideb Llywodraeth Cymru ar 20 Rhagfyr a bydd yn ceisio sicrhau'r setliad tecaf posibl ar gyfer Cymru fwy llewyrchus, gwyrdd a chyfiawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU lle bynnag y bo modd i reoli goblygiadau'r ymrwymiadau a amlinellir yn y Strategaeth Gwres ac Adeiladau ar aelwydydd yng Nghymru.

Bydd Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad ar fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes, erbyn mis Rhagfyr fan bellaf, ac roedd y Gweinidog yn gobeithio y gallai ymuno â'r Grŵp yn y flwyddyn newydd i ymgysylltu ar cyfryw.

**5. Cwestiynau ac atebion**

***Claire Pearce-Crawford, Cartrefi Melin*** Mae gennym lawer o dai nad ydynt ar y grid nwy yng Nghymru sy'n dal i ddefnyddio gwres glo neu olew, sydd ar hyn o bryd yn costio crocbris. Onid gwell fyddai anelu arian tuag at yr eiddo hyn, y rhai sy'n cael effaith ddramatig ar yr amgylchedd ac sy'n byw mewn tlodi tanwydd mewn niferoedd enfawr er gwaethaf bod mewn gwaith, yn hytrach na gyrru arian at eiddo aelwydydd sydd ar y grid nwy ac nad ydynt yn achosi cymaint o ddifrod amgylcheddol ac nad yw nifer y rheini sydd mewn tlodi tanwydd mor uchel?

***Jane Hutt AS:*** Mae'n bwynt pwysig iawn a byddaf hefyd yn ei adrodd yn ôl i'r Gweinidog Newid Hinsawdd sy'n gyfrifol am faterion yn ymwneud â thai a chynllunio ac ynni. Efallai y bydd eraill yn y cyfarfod hwn yn llawer mwy abl i ateb y cwestiwn am y tro.

***Ben Saltmarsh, NEA Cymru:*** Mae amcangyfrifon diweddaraf BEIS o 2019 yn dangos bod 19 y cant o aelwydydd yng Nghymru heb eu cysylltu â'r grid nwy. Yn fras, mae hynny ychydig o dan 275,000 o aelwydydd, a bydd y ffigur yn amrywio yn ôl rhanbarth ac ardal awdurdod lleol. Yng Nghynllun Cymru Sero Net mae ymrwymiad i ddull adeiladwaith yn gyntaf a'r gwaethaf gyntaf. Mae'n nodi y bydd gwres carbon isel yn nodwedd o fewn cwmpas y fersiwn o'r rhaglen Cartrefi Cynnes a geir yn y dyfodol hefyd, ac mai hyn fydd yn brawf litmws am gymorth sydd ar gael i'r mwyafrif o aelwydydd tlawd o ran tanwydd yng Nghymru wrth symud ymlaen.

***Mark Isherwood AS:*** Mae Calor yn cynnig technoleg hybrid ac mae'i cynrychiolwyr wedi gwneud cyflwyniad i'r Grŵp yn flaenorol ar hyn ac efallai y bydd y Grŵp am eu gwahodd yn ôl i rannu eu syniadau, ac eraill o'r sector, ynglŷn â hyn. Mae hefyd y mater ehangach am fod Cymru sydd â'r gyfran hynaf o stoc dai yn y DU, ac mae llawer o'r rheini'n adeiladau anhraddodiadol, felly mae'n rhaid i ni ystyried ymyriadau i'w gwneud yn fwy effeithlon o ran tanwydd, sef ymyriadau nad ydynt bob amser yn foddhaol ar gyfer eiddo mwy modern.

***William Jones, Cyngor ar Bopeth Ceredigion:*** Rwy'n gweithio yn ardal nad yw ar y grid nwy gan mwyaf, ac mae ganddi'r lefelau uchaf ond un o dlodi tanwydd yng Nghymru. Mae'n dda bod y cynllun peilot o dan y Gronfa Cymorth Dewisol, ar gyfer pobl sy'n defnyddio olew ac LPG, wedi cael ei ailgyflwyno rhwng mis Hydref a mis Mawrth, ond mae am chwe mis o'r flwyddyn yn unig. Mae cynlluniau eraill i gynorthwyo pobl a lliniaru tlodi tanwydd yn para 12 mis o'r flwyddyn yn gyson a hoffwn yn fawr ichi ystyried gwneud hynny'n rhywbeth blwyddyn gron yn barhaol, yn hytrach na chwe mis. Mae'r ail bwynt ar un o'r syniadau diddorol iawn rydych chi wedi'u cyhoeddi yn eich swydd. Sef yw'r cynllun peilot posibl ar gyfer Incwm Sylfaenol Cyffredinol, a fydd yn amlwg, os daw i mewn, yn cynorthwyo pobl sy'n elwa arno mewn perthynas â'u tlodi tanwydd eu hunain. Tybed a allech chi roi unrhyw ddiweddariad ar hynny?

***Jane Hutt AS:*** Peilot yw'r Gwasanaethau Cynghori ar Ynni ac rydym wedi'i ymestyn. Golyga hynny y bydd gennym flwyddyn lawn o gyflenwi i ganiatáu gwerthusiad trylwyr a chadarn o effaith y gwasanaeth. Mae eisoes yn cael effaith ac os gall wireddu ei bwrpas bydd gennym bob cyfle i ddadlau dros droi'r cynllun peilot yn rywbeth mwy cynaliadwy. O ran cynllun peilot Incwm Sylfaenol Cyffredinol, bydd hwnnw'n canolbwyntio ar ymadawyr gofal a byddaf yn cyhoeddi datganiad ysgrifenedig yn fuan iawn. Mae materion o ran y rhyngwyneb â budd-daliadau, ond rydym yn mynd i'r afael â hynny gyda Llywodraeth y DU.

***Jack Wilkinson-Dix, Ymddiriedolaeth Arbed Ynni:***O ran y Cynllun Uwchraddio Boeleri, a fydd yn eu newid am bympiau gwres, bydd hwnnw'n gweithredu yng Nghymru a Lloegr. A ydych wedi cael trafodaethau â Gweinidogion eraill ar draws adrannau ynghylch sut y byddai hyn yn cael ei weinyddu yng Nghymru? Mae gennym rai pryderon ein bod yn rhoi arwydd i aelwydydd y dylent osod pympiau gwres er nad oes cyllid cyfartal ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni, ac mae hyn yn mynd yn groes i'r cynllun a fu gan Llywodraeth Cymru wrth dreialu'r dulliau hyn mewn dull adeiladwaith-yn-gyntaf mewn tai cymdeithasol a'u defnyddio ar gyfer mathau eraill o ddeiliadaeth. Pa drafodaethau a gafwyd a sut rydych chi'n gweld y cynllun yn cael ei weinyddu yng Nghymru?

***Jane Hutt AS:*** Mae hyn yn rhywbeth lle rwyf wedi dweud bod yn rhaid i ni weithio gyda Llywodraeth y DU lle bynnag y gallwn i rannu ein tystiolaeth a'n cyfarwyddiadau polisi, ond hefyd i reoli goblygiadau cyhoeddiadau o'r fath y mae Llywodraeth y DU wedi'u gwneud yn ei Strategaeth Gwres ac Adeiladau. Ar hyn o bryd, rydym yn edrych ar yr hyn y mae'n ei olygu o ran y cyfleoedd economaidd ariannol a gynigir gan y strategaeth, gan weld sut mae'n ategu ein huchelgais ar gyfer pontio teg i sero net, a sicrhau y gallwn weithio gyda'n gilydd i gael Cymru gryfach, decach a glanach. O fyfyrio ar y ffaith bod angen datgarboneiddio bron pob adeilad a gynhesir er mwyn cyrraedd sero net, fe welir anferthedd yr her. Felly, rhaid i ni weld beth mae hyn yn ei olygu a sut mae'n cyd-fynd â'r Cynllun Uwchraddio Boeleri gwerth £450 miliwn.

***Haf Elgar, Cyfeillion y Ddaear Cymru:*** Soniodd y Gweinidog am gyflwyno targedau interim ar gyfer tlodi tanwydd, ond nid oeddent yn y cynllun Trechu Tlodi Tanwydd gwreiddiol, ac rydym yn deall nad oedd yn y cynllun oherwydd y diffyg amcangyfrifon diwygiedig. Meddwl oeddwn i y byddai'r amcangyfrif yn barod erbyn diwedd y flwyddyn, ond credaf ichi ddweud na fydd yn barod cyn y gwanwyn nesaf erbyn hyn. A allai'r Gweinidog rannu â'r grŵp yr amserlenni newydd ar gyfer cyflwyno'r targedau interim hynny, ac a bydd yr oedi o ran yr amcangyfrifon yn achosi sgil-effeithiau ar gyfer unrhyw raglenni neu fwriadau eraill, megis ymgynghoriad y Rhaglen Cartrefi Cynnes, ac a oes unrhyw oblygiadau eraill y dylem fod yn ymwybodol ohonynt?

***Jane Hutt AS:*** Ni allaf roi rhagor o wybodaeth ynghylch pam mai mis Mawrth y bydd hi o ran yr amcangyfrifon oherwydd nid oes gennym unrhyw ddylanwad ar hynny. Rwy'n gobeithio na fydd hyn yn gohirio gwaith y Panel; rwy'n siŵr ei fod eisoes yn dechrau meddwl am dargedau interim i feincnodi cynnydd. Bydd asesiad o lefel gyfredol tlodi tanwydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i osod y targedau interim hynny yn 2025 a 2030 ar gyfer y Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd. Rydym wedi caffael y Sefydliad Ymchwil Adeiladu i gyflawni'r gwaith i lunio amcangyfrifon diwygiedig ac rwy'n gobeithio y byddwn ni'n cael y rheini cyn gynted â phosibl, ond fe'u disgwylir erbyn mis Mawrth y flwyddyn nesaf.

***Faye Patton, Gofal a Thrwsio:*** Yn ystod y cyfarfod hwn, mae'r Gweinidog wedi sôn am y Cynllun Gwytnwch Tywydd Oer, ac roeddwn i'n meddwl tybed a allwch chi ddweud pryd y gallai hyn gael ei gyhoeddi a sut olwg sydd ar y cynnwys ar hyn o bryd.

***Jane Hutt AS:*** Disgwylir iddo fod o fewn yr wythnosau nesaf; yn sicr cyn y Nadolig. Os gallaf roi unrhyw beth mwy pendant i chi, byddaf yn ei rannu â'r grŵp, ond mae ar ei ffordd a bydd yn seiliedig i raddau helaeth ar y gofynion a'r anghenion diweddaraf.

***Crispin Jones, Arbed am Byth:*** Mae'r cynllun Arbed bellach wedi dod i ben, a dyna 4,000 eiddo arall a gafodd eu trin sydd wedi cael buddion gwych. A fyddech chi'n ystyried sut y gallwch chi gynnal y gadwyn gyflenwi, sydd â'r sgiliau ar gyfer ynni adnewyddadwy, yn hytrach gadael iddi fynd.

***Jane Hutt AS:*** Er 2010 hyd ddiwedd mis Mawrth eleni, buddsoddwyd dros £394 miliwn o bunnoedd yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes ac mae hynny wedi bod o fudd i dros 67,100 o aelwydydd incwm isel. Rydym bellach yn ystyried y ffordd ymlaen ac erbyn mis Rhagfyr bydd gennym y diweddariad nesaf ar y Rhaglen Cartrefi Cynnes. Felly, byddwn yn ymgynghori ar hynny ac rwy'n credu bod y materion cadwyn gyflenwi hynny ar y blaen.

***Mark Isherwood AS:***Mae'r grŵp hwn bob amser wedi hyrwyddo'r dull cyfiawnder cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, lle gall ymyriadau amrywio yn ôl nid yn unig yr eiddo y mae'r person yn byw ynddo, a'r addasiadau y mae eu hangen ar yr eiddo, ond hefyd yn cefnogi'r unigolyn i ddefnyddio'r technolegau addasol yn y ffordd fwyaf effeithlon yn eu cartref. Yn yr un modd, cefnogi pobl i gael mynediad at wasanaethau cynghori ac elwa arnynt ac edrych ar y rhyng-gysylltiad rhwng gwasanaethau iechyd, neu hyd yn oed ysgolion, lle mae meddygon teulu gofal sylfaenol neu eraill yn gweld cyflyrau sy'n gysylltiedig â chartrefi oer ac yn gallu adrodd hynny i rwydweithiau tlodi tanwydd lleol i ddarparu'r gefnogaeth honno sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. I ba raddau y bydd eich syniadaeth a'ch cynlluniau arfaethedig yn canolbwyntio ar ddefnyddio'r unigolyn fel y locws ac yna dod â'r gefnogaeth sydd ei hangen ar sail unigol?

***Jane Hutt AS:*** Dyna bwynt pwysig iawn o safbwynt cyfiawnder cymdeithasol; mae'n draws-lywodraeth gyda chysylltiadau ag addysg, iechyd meddwl a llesiant ac iechyd y cyhoedd. Felly, i raddau helaeth, mae'n ddull iechyd y cyhoedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae gwasanaethau cyngor unigol yn dod o danaf i ac rydym am hel y cwbl ynghyd, a byddwn ni'n parhau i weithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth. Mae'n werth nodi hefyd fod y Gronfa Cymorth Dewisol yn bwysig iawn o ran yr hyblygrwydd yr ydym wedi caniatáu ei chynnal. Mae'n bwysig atgoffa pawb bod y cymorth tanwydd gaeaf ar gyfer cartrefi nad ydynt ar y grid a grantiau atgyweirio boeleri ar gael gan y Gronfa Cymorth Dewisol sy'n rhedeg rhwng 1 Hydref a 31 Mawrth 2022.

Diolchodd Mark Isherwood AS i'r Gweinidog am ateb y cwestiynau a gofynnodd i'r grŵp gyflwyno unrhyw gwestiynau dilynol i Ben Saltmarsh fel y gellir mynd ar eu trywydd mewn cyfarfod yn y dyfodol neu'n ysgrifenedig.

**6. Unrhyw fater arall**

Ni chodwyd unrhyw fusnes arall. Nododd y Cadeirydd, yn unol â'r gweithdrefnau, y bydd ffurflenni i sefydlu'r Grŵp Trawsbleidiol yn gadarn yn cael eu cyflwyno i'r Senedd a bydd cofnod cywir yn cael ei gyhoeddi ar y wefan yn unol â'r rheolau.

**7. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf**

Rhoddir gwybod i'r aelodau am y cyfarfod nesaf maes o law. Os oes gan aelodau unrhyw awgrymiadau ar gyfer pynciau neu siaradwyr ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol, dylid eu hanfon at Ben Saltmarsh.